Cy wyniad

Mae ein cynllun strategol yn nodi ein tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu r sefydliad gorau posibl.
Y tair blaenoriaeth yw:

- Bod yn llais dibynadwy er mwyn dylanwadu ar welliannau a u hysgogi.
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.
- Bod yn fedrus ac yn ymatebol.

Ein huchelgais yw sicrhau bod ymgysylltu â phobl yn rhan ganolog o n hymdrechion i gy awni r blaenoriaethau hyn.

Rydym am sicrhau bod pobl yn deall yr hyn rydym yn ei wneud, eu bod yn gwybod sut i gysylltu â ni a sut i roi adborth ar ein gwaith. Rydym am ddatblygu yrdd newydd o wneud hyn fel y gallwn ymgysylltu â mwy o bobl. Mae angen i ni hefyd wella r ordd rydym yn rhoi gwybod i bobl sut rydym wedi defnyddio eu barn.

Er mwyn gwneud hyn, rydym am weithio gyda phobl i sicrhau r canlynol:

- Bod pobl yn ymwybodol o'n rôl ac yn ei deall, a'u bod yn gwybod sut i roi eu barn i ni.
- Bod barn pobl yn llywio ein gwaith.
- Ein bod yn rhannu ein gwybodaeth a'n canfyddiadau er mwyn cefnogi gwelliannau.

Ymgysylltu

Beth yw ystyr ymgysylltu

Ymgysylltu yw'r broses o gynnwys pobl yn ein gwaith. Gall pobl gael eu cynnwys mewn llawer o ffyrdd, o ddigwyddiadau untro i gydberthnasau hirsefydlog. Dylent allu dewis sut a phryd i gymryd rhan.

Efallai y bydd pobl am gymryd rhan drwy roi eu barn ar wasanaethau gofal neu fater penodol yn unig. Neu efallai y byddant yn awyddus i chwarae rhan fwy blaenllaw mewn gwaith grŵp prosiect a gwaith datblygu polisïau, er enghraifft, drwy gymryd rhan mewn cyfweliadau staff a grwpiau strategaeth.

Pam mae ymgysylltu â phobl yn bwysig

Rydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau canlynol.

- **Gwasanaethau oedolion:** cartrefi gofal i oedolion; gwasanaethau cymorth cartref; cynlluniau lleoli oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd.
- **Gwasanaethau plant:** cartrefi gofal i blant; gwasanaethau maethu; gwasanaethau mabwysiadu; gwasanaethau eirioli; gwasanaethau llety diogel.
- **Gwasanaethau gofal plant a chwarae:** gwarchodwyr plant; meithrinfeydd; gofal dydd llawn; gofal dydd sesiynol; gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored.

Rydym hefyd yn arolygu'r canlynol:

- gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol
- ysgolion preswyl
- ysgolion arbennig preswyl (trefniadau llety am lai na 295 diwrnod)
- colegau addysg bellach sy'n derbyn myfyrwyr dan 18 oed.

Rydym yn siarad ag amrywiaeth eang o bobl, yn gwrando arnynt ac yn eu cynnwys er mwyn dysgu am eu profiadau o'r gwasanaethau hyn. Credwn ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu lleisio barn ar y ffordd y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae eu darparu, a'r ffordd rydym yn eu harolygu. Mae hefyd yn bwysig cael adborth ar ansawdd ein gwaith.

Rydym yn ymrwymedig i roi cyfle i bobl ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

Beth yw ymgysylltu da?

Gwnaethom gyfarfod â phobl sydd â diddordeb yn ein gwaith er mwyn trafod ein dull ymgysylltu a'n helpu i ddatblygu'r cynllun hwn. Gwnaethom drafod pwy, pam a sut rydym am ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bobl, gan adeiladu ar y gwaith rydym yn ei wneud yn barod.

Gwnaethom drafod beth yw ymgysylltu da a gwnaethom gytuno bod ymgysylltu da:

- **Yn rhywbeth a ddylai fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn, nid digwyddiad untro**
- **Yn gwneud gwahaniaeth**
- **Yn glir ynghylch ei bwrpas a bod pobl yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol**
- **Wedi'i gynllunio'n dda ac yn rhoi digon o amser i bobl gyfrannu**
- **Yn sicrhau bod pobl yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed**
- **Yn ymateb i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud**
- **Yn hyrwyddo parch at bawb**
- **Yn meithrin cydberthnasau ymddiriedus**
- **Yn greadigol, gan ddefnyddio dulliau gweithredu amrywiol**
- **Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl**
- **Yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl gymryd rhan**
- **Yn osgoi jargon.**

Ein hymrwymiadau ymgysylltu

Wrth gyflawni'r cynllun hwn, rydym yn addo ymgorffori'r ymrwymiadau canlynol yn ein gwaith.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- ✓ Rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn ein gwaith.
- ✓ Ymgysylltu â chynifer o bobl ag y gallwn, gan groesawu pobl o amrywiaeth eang o ddiwylliannau, cymunedau, amgylchiadau, cefndiroedd ac oedrannau.
- ✓ Rhoi gwybod i bobl pam eu bod yn cael eu cynnwys a sut y byddwn yn defnyddio eu cyfraniadau.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am gymryd rhan yn ein gwaith ar gael yn hawdd a bod ein prosesau yn agored ac yn ddealladwy.
- ✓ Cydnabod ymrwymiad a chyfraniad y bobl rydym yn eu cynnwys a sicrhau ein bod yn rhoi adborth bob amser fel bod pawb yn teimlo ein bod yn eu parchu a'u gwerthfawrogi.
- ✓ Ymateb i adborth a chyfraniad pobl, gan roi gwybod iddynt am yr hyn rydym wedi'i wneud a'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud.
- ✓ Ysgrifennu a dweud pethau mewn ffordd y gall pobl ei deall ac a fydd yn cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- ✓ Gwella ein gwaith yn barhaus mewn ymateb i adborth pobl.
- ✓ Gweithio'n unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Y bobl rydym yn ymgysylltu â nhw

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl ledled Cymru a thu hwnt.

- Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio, a'u teuluoedd/gofalwyr.
- Pawb sy'n byw yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol, gofal plant neu chwarae.
- Pobl sy'n berchen ar wasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant neu chwarae, yn eu rheoli ac yn gweithio ynddynt.
- Sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gofal cymdeithasol a'u gofalwyr.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae.
- Pobl sy'n comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol (awdurdodau lleol a'r GIG).
- Cyrff rheoleiddio eraill fel Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal yr Alban, Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

Rôl ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Mae ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr yn ogystal â chomisiynwyr a darparwyr. Mae'n gweithredu fel 'llais' ar gyfer barn teuluoedd a pherthnasau, gofalwyr, a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â barn pawb sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn rhan greiddiol o'n gwaith ymgysylltu. Mae aelodau'r Bwrdd yn rhoi darlun i ni o ba mor dda mae gwasanaethau yn gweithio, sut mae angen iddynt wella a sut y gallwn wella ein gwaith arolygu. Maent yn ein helpu i wneud y canlynol:

- deall beth sy'n bwysig i bobl
- llunio ein rhaglen waith flynyddol
- dod o hyd i atebion a gwella gwasanaethau ac AGC.

Beth rydym yn ei wneud nawr

Nod y cynllun hwn yw adeiladu ar y ffyrdd rydym yn ymgysylltu â phobl yn barod a'u datblygu ymhellach.

Siart ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ein dull ymgysylltu

	Y sawl rydym yn ymgysylltu â nhw							
	Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u teuluoedd/ gofalwyr	Aelodau o'r cyhoedd	Pobl sy'n berchen ar wasanaethau gofal plant, chwarae a gofal cymdeithasol, yn eu rheoli a/ neu'n gweithio ynddynt	Comisiynwyr	Sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gofal cymdeithasol a'u gofalwyr	Sefydliadau sy'n cefnogi darparwyr	Bwrdd Cynghori Cenedlaethol	Rheoleiddwyr eraill, comisiynwyr plant a phobl hŷn
Siarad â phobl fel rhan o'n harolygiadau	○		○	○				
Gofyn i bobl gwblhau arolygon fel rhan o'n harolygiadau	○		○	○				
Gofyn am adborth gan ddarparwyr ar ôl arolygiadau			○					
Cynnwys pobl mewn gwaith datblygu	○		○		○	○	○	○
Cynnal digwyddiadau rheolaidd i ddarparwyr			○			○		
Mynd i ddigwyddiadau sector / cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith	○	○	○	○	○	○	○	○
Mynd i gyfarfodydd i rannu gwybodaeth			○	○	○	○	○	○
Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan i roi gwybodaeth a gofyn am adborth	○	○	○	○	○	○	○	○
Cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol	○	○	○	○	○	○	○	○
Cylchlythyr AGC	○	○	○	○	○	○	○	○

Ein cynllun gweithredu

Yn yr adran nesaf, rydym yn amlinellu'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd i wella'r ffordd rydym yn annog pobl i ymgysylltu â'n gwaith a byddwn yn cynnwys pobl o'r dechrau er mwyn meddwl am y ffyrdd gorau o wneud hyn.

Bydd pob prosiect mawr yn ein cynllun strategol yn cynnwys cynllun a fydd yn nodi sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl er mwyn datblygu'r gwaith.

Byddwn yn gwerthuso ein cynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn bob blwyddyn, gan weithio gyda'r grŵp o bobl a wnaeth ein helpu i'w ddatblygu a'n Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

Canlyniad gwaith ymgysylltu:

Bod pobl yn ymwybodol o'n rôl ac yn ei deall.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- Adolygu ein gwefan i sicrhau bod modd dod o hyd i wybodaeth yn hawdd.
- Cynnal cyfarfod blynyddol â chomisiynwyr gwasanaeth i rannu gwybodaeth am wasanaethau rheoleiddiedig.
- Llunio a hyrwyddo gwybodaeth gryno, syml a chlir sy'n egluro beth yw gofal da ac yn helpu pobl i wneud penderfyniadau am wasanaethau.
- Datblygu'r ystod o adnoddau rydym yn eu defnyddio i ymgysylltu â phobl, gan gynnwys pobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar.
- Sicrhau bod gwybodaeth amdanom ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau cyhoeddus ac ar-lein.
- Cyhoeddi amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth am ein gwaith.
- Darparu fersiynau hawdd eu deall o'n holl ddogfennau strategol allweddol.
- Datblygu ardal ymgysylltu ar ein gwefan.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn rydym am i bobl ei ddweud wrthym er mwyn sicrhau ein bod yn effro i unrhyw arwyddion cynnar o bryder am ansawdd gwasanaethau.

Canlyniad gwaith ymgysylltu:

Bod barn pobl yn llywio ein gwaith.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- Chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod pobl yn ymgysylltu â'n gwaith.
- Gwella ein holiaduron adborth.
- Ailddatblygu ein gwefan i annog pobl i roi adborth ar eu profiadau, boed yn dda neu'n ddrwg.
- Gofyn am adborth ar fformat a chynnwys adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd er mwyn llywio adroddiadau yn y dyfodol.
- Parhau i gynnal digwyddiadau rheolaidd i ddarparwyr gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae mewn lleoliadau hygyrch ac ar adegau cyfleus.
- Chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu sy'n gweithio ar eu rhan.
- Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau/gofalwyr wrth i ni recriwtio arolygwyr.
- Datblygu ffyrdd gwahanol o ofyn am adborth gan bobl.
- Datblygu ein cysylltiadau â'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn ymhellach.
- Cynnwys pobl yn ein gwaith i ddylunio a chyflwyno graddau ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.
- Datblygu ein gwefan fel y gall pobl adael adborth ar ein hadroddiadau arolygu.
- Ystyried sut y gellir defnyddio technoleg ddigidol i rannu gwybodaeth â darparwyr.
- Datblygu ffyrdd mwy penodol o ymgysylltu â phobl er mwyn rhannu gwybodaeth, cael adborth a helpu i lywio ein gwaith, gan gynnwys fideos wedi'u hanimeiddio a YouTube.

Canlyniad gwaith ymgysylltu:

Ein bod yn rhannu ein gwybodaeth a'n canfyddiadau er mwyn cefnogi gwelliannau.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- Ymgynghori â darparwyr gofal plant a chwarae ynghylch disgrifyddion ar gyfer graddau.
- Adolygu'r ffyrdd rydym yn gofyn am adborth gan bartneriaid statudol fel rhan o'n proses arolygu.
- Cynnwys pobl wrth ddatblygu ein dull gweithredu o ran graddau.
- Cynnwys pobl yn ein gwaith i adolygu fformat ein hadroddiadau arolygu.
- Datblygu cynllun cymheiriaid i gynnwys rheolwyr awdurdodau lleol yn ein timau arolygu awdurdodau lleol.
- Cynnal digwyddiadau dysgu ar y cyd â'n partneriaid er mwyn helpu i gefnogi gwelliannau.
- Drwy ein harolygiadau, annog darparwyr i wrando a gweithredu ar farn a phrofiadau pobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau a monitro pa mor dda maent yn gwneud hyn.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill – yn enwedig yn y sector cyhoeddus – i leihau achosion o ddyblygu gwaith a rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu.
- Datblygu mwy o ffyrdd o hyrwyddo ymarfer cadarnhaol er mwyn cefnogi gwelliannau.
- Datblygu adroddiad 'cyflwr y genedl' ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn rhoi trosolwg o'r sector gofal cymdeithasol a gofal plant.

Atodiadau

Geirfa

Egluro'r iaith rydym yn ei defnyddio yn y cynllun hwn

Rydym wedi ceisio gwneud ein cynllun yn glir ac yn ddealladwy. Dyma esboniad o rai o'r termau rydym yn eu defnyddio.

Rydym/Ein – mae hyn yn golygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Ymgysylltu – mae hyn yn golygu gwybod am yr hyn rydym yn ei wneud a chymryd rhan, neu gael eich cynnwys yn yr hyn rydym yn ei wneud.

Gofal cymdeithasol – gwasanaethau sy'n cefnogi pobl y mae angen help arnynt yn eu bywyd bob dydd. Mae'r gwasanaethau yn amrywiol ac yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, cartrefi gofal (byw mewn lleoliad gyda phobl eraill) a chymorth cartref (gofal yn eich cartref), cymorth a gweithgareddau cymunedol, mabwysiadu a maethu a chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl, a phobl anabl.

Gofal plant a chwarae – gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â ni i ddarparu gofal dydd a chyfleoedd chwarae i blant.

Darparwyr – y bobl sy'n gyfrifol am gynnig gwasanaethau.

Comisiynwyr – awdurdodau lleol (cynghorau) neu fyrddau iechyd (GIG) sy'n trefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardal.

Canlyniadau – y nodau rydym am eu cyflawni.

EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisïau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru.
Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o
www.participationcymru.org.uk
Mawrth 2011

Cyfranogaeth Cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**